

Mewnwelediadau ar reoleiddio ar-lein: Astudiaeth achos sy'n monitro hysbysebu gwleidyddol Cyfres papurau trafodaeth economeg, rhifyn 3



Wedi'i gyhoeddi 4 Chwefror 2021

Cyfres papurau trafodaeth economeg Ofcom mewn rheoleiddio cyfathrebiadau

Y gyfres papurau trafod

Mae Ofcom wedi ymrwmo i annog trafodaeth ar bob agwedd ar reoleiddio'r cyfryngau a chyfathrebiadau, ac i greu tystiolaeth drylwyr i gefnogi'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud. Un o'r ffyrdd rydym yn gwneud hyn yw drwy gyhoeddi papurau trafod, sy'n ymestyn ar draws economeg a disgyblaethau eraill. Nod yr ymchwil yw datblygu ein gwybodaeth a chreu trafodaeth ehangach ar y themâu yr ymdrinnir â nhw.

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clyweled (ERGA), Awdurdod Darlledu Iwerddon (BAI) a Jane Suiter a Niamh Kirk o Sefydliad Iwerddon ar gyfer Cyfryngau a Newyddiaduraeth yn y Dyfodol am rannu'r fethodoleg a fabwysiadwyd gan eu hadroddiadau ar y pwnc hwn. Hoffem hefyd ddiolch i Facebook a Google am ddarparu gwybodaeth ychwanegol er budd yr adroddiad hwn.

Ymwadiad

Mae papurau trafod yn cyfrannu at waith Ofcom drwy ddarparu ymchwil drylwyr ac annog trafodaeth ym meysydd ein cylch gwaith. Mae papurau trafod yn un ffynhonnell y gall Ofcom gyfeirio ati, a'i defnyddio i lywio ei farn, wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol. Fodd bynnag, nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwynt Ofcom ar faterion penodol.

1. Trosolwg

Mae'r rhyngwyd wedi dod â manteision sylweddol i bobl ac i gymdeithas ehangach. Mae ei natur rydd ac agored yn gyfrwng er arloesedd sydd wedi galluogi modelau busnes a ffyrdd o ddarparu gwybodaeth a chynnwys newydd. Mae wedi chwyldroi sut mae pobl yn cyfathrebu â'i gilydd a sut maen nhw'n cael mynediad at ystod o'r cynnwys hwn.

Ond nid yw hyn wedi dod heb risgiau, gan gynnwys y rhai a achosir gan gynnwys anghyfreithlon a niweidiol. Yn y DU ac yn rhyngwladol, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddeall natur y risgiau hyn a'r ffordd orau o fynd i'r afael â nhw. Mae offer a dulliau rheoleiddio newydd yn cael eu datblygu wrth ymateb i hyn.

Un offeryn a ddatblygwyd yn ddiweddar yw'r Cod Ymarfer gwirfoddol ar Dwyllwbyodaeth a ddatblygwyd gan gwmnïau ar-lein mawr fel Google, Facebook, Twitter a Mozilla yn 2018 i fynd i'r afael â thwyllwbyodaeth ar-lein a helpu i gynnal uniondeb etholiadau a chyd-drafodaethau democrataidd ar-lein.

Hysbysebu gwleidyddol yw un o'r meysydd sy'n dod o dan y cod hwn. Mae sefydliadau sydd wedi ymrwymo i'r cod wedi addo: gwahaniaethu rhwng cyfathrebiadau y telir amdanynt; galluogi datgelu hysbysebu gwleidyddol gan gynnwys adnabod hysbysebwr a'r symiau a wariwyd; a gwneud ymdrechion rhesymol i adnabod a labelu hysbysebion sy'n seiliedig ar bynciau penodol¹. Gwnaed yr ymrwymadau hyn gan gydnabod gwerth tryloywder ac ymchwil ynghylch hysbysebu gwleidyddol, gyda golwg ar helpu pobl i ddeall pam eu bod yn cael eu targedu gan hysbyseb benodol.

Bu i ni ymuno â rheoleiddwyr eraill ar draws Ewrop i fonitro sut mae'r cod wedi cael ei weithredu yn ystod cyfnodau etholiad. Cyflawnwyd ein gwaith monitro ni yn ystod Etholiad Cyffredinol y DU yn 2019, a chanolbwyntiodd ar y mesurau a roddwyd ar waith gan Facebook a Google i gynyddu tryloywder o ran hysbysebu gwleidyddol ar eu llwyfannau.²

Mae'r adroddiad hwn yn trafod y gwersi a ddysgwyd gennym o'n hymarfer monitro. Disgwylw'n y gall y gwersi hyn gyfrannu at y cyd-drafodaethau ehangach ar sut y gall rheoleiddio helpu i fynd i'r afael â heriau ar-lein. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi canfyddiadau ein gwaith monitro er mwyn helpu cyfeirio cyd-drafodaeth ar sut y gall mesurau tryloywder rymuso defnyddwyr ar-lein i ymgysylltu'n feirniadol â'r cynnwys y maent yn dod ar ei draws.

¹ Nid yw'r Cod ei hun yn diffinio hysbysebu ar sail pynciau penodol ond bwriedir i'r cysyniad gynnwys hysbysebu sy'n ymwneud â phwnc gwleidyddol bwysig, er enghraifft newid yn yr hinsawdd, ond nad yw o blaid neu yn erbyn ymgeisydd neu blaid benodol.

² Mae Twitter hefyd yn llofnodi i'r Cod ond fe newidiodd ei bolisiau hysbysebu cyn Etholiad Cyffredinol y DU i wahardd hysbysebu gwleidyddol ar ei lwyfan. Cyflawnwyd ein gwaith cywain tystiolaeth ei gynnal yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol a, gan nad oedd data Twitter perthnasol i'w fonitro, ni chafodd ei gynnwys yng nghwmpas yr ymarfer hwn.

Yr hyn rydym wedi'i ddarganfod – yn gryno

Nod ymrwymiadau llwyfannau o dan y cod oedd sicrhau tryloywder hysbysebu sy'n wleidyddol ac yn seiliedig ar bynciau penodol, gyda'r nod o alluogi defnyddwyr i ddeall pam eu bod yn cael eu targedu gan hysbyseb benodol. Cynhaliwyd adolygiad ansoddol a meintiol o'r wybodaeth a ddarparwyd gan Google a Facebook fel rhan o'u hymrwymiadau. Yn seiliedig ar y gwaith hwn, rydym wedi nodi'r canlynol:

- mae'r wybodaeth a ddarperir gan lwyfannau ar-lein o bosibl wedi dod â manteision i bobl;
- fodd bynnag, mae lle i lwyfannau ddarparu rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr er mwyn cynyddu tryloywder hysbysebu gwleidyddol;
- darparodd llwyfannau sawl ffordd o gael mynediad i'w data ar hysbysebion gwleidyddol. Gwelsom wahaniaethau mewn setiau data a ddarparwyd gan yr un lwyfan, gan gynnwys arsylwadau mewn un set ddata nad ydynt yn ymddangos mewn un arall o'r un lwyfan, a chyfansymiau gwahanol o'r hysbysebion fu'n weithredol ar yr un diwrnod ar gyfer yr un lwyfan. Gwelsom hefyd wahaniaethau yn y ffordd y cymhwyswyd y cod ar draws llwyfannau;
- roedd bylchau posibl yng ngweithrediad llwyfannau o'r cod a oedd a berodd risg o gyfyngu ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd ganddynt i sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i'w defnyddwyr a'u hymchwilyr; ac
- fe welsom rai rhwystrau i fonitro gweithrediad y cod yn gynhwysfawr, rhywbeth y gellir ei oresgyn o bosib os bydd llwyfannau'n rhoi mwy o wybodaeth i ymchwilyr.

Mae ein gwaith monitro wedi tanlinellu pwysigrwydd nifer o ffactorau wrth ddatblygu offer rheoleiddio ar gyfer materion ar-lein. Rydym yn eu trafod yma fel cyfraniad i'r drafodaeth ehangach am reoleiddio ar-lein.

- Mae rheoleiddio ar-lein yn faes newydd sy'n datblygu. Efallai y bydd angen i reoleiddwyr a llwyfannau brofi ac esblygu eu dull o ymdrin â natur ddeinamig y farchnad a'r potensial am ganlyniadau anfwriadol.
- Bydd deilliannau rheoleiddio'n cael eu gwella os bydd gan lwyfannau eu systemau cadarn eu hunain i fonitro effeithiolrwydd a chanlyniadau eu gweithredoedd. Bydd hyn yn heriol i'w gyflawni ac efallai y bydd angen dull ailadroddol.
- Byddai tryloywder y prosesau a roddwyd ar waith gan lwyfannau yn caniatáu i reoleiddwyr ac ymchwilyr asesu eu heffeithiolrwydd yn well a gweithio gyda llwyfannau i nodi unrhyw gyfle i wella. Byddai hefyd yn meithrin ymddiriedaeth rhwng rheoleiddwyr, llwyfannau a'r cyhoedd.
- Gallai deialog agored rhwng rheoleiddwyr, llwyfannau, y trydydd sector a'r byd academiaidd ynghylch argaeledd data a mynediad iddo helpu i asesu gweithrediad ac effeithiolrwydd dull rheoleiddio. Dylai deialog o'r fath hefyd ystyried costau a buddion sicrhau bod y fath wybodaeth ar gael.
- Gellid cryfhau'r gwaith monitro drwy ategu'r dadansoddiad o ddata llwyfannau gyda thystiolaeth arall, megis ymchwil defnyddwyr i sut mae defnyddwyr yn ymgysylltu â'r mesurau a gymerir gan lwyfannau.

Er bod y gwersi hyn yn darparu ystyriaethau perthnasol ar gyfer defnyddio offer rheoleiddio ar-lein yn fwy cyffredinol, gallai eu cymhwysiad yn y dyfodol amrywio er mwyn adlewyrchu amcanion a chostau rheoleiddio penodol a manteision ymyriadau rheoleiddiol.